



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cymraeg ar y Campws

**Profiadau myfyrwyr o ddefnyddio'r
Gymraeg mewn Addysg Bellach ac
Addysg Uwch**





Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol	2
	Prif ganfyddiadau	2
	Casgliadau	4
1	Cefndir a methodoleg	6
2	Canfyddiadau'r Ymchwil	9
3	Maes Blaenoriaeth 1: Gallu myfyrwyr i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg	11
	Barn myfyrwyr Addysg Uwch	12
	Barn myfyrwyr Addysg Bellach	13
	Casgliadau	14
4	Maes Blaenoriaeth 2: Y dewis o lety	16
	Barn myfyrwyr Addysg Uwch	17
	Barn myfyrwyr Addysg Bellach	18
	Casgliadau	19
5	Maes Blaenoriaeth 3: Cynnig a dyrannu Tiwtor Personol	20
	Barn myfyrwyr Addysg Uwch	20
	Barn myfyrwyr Addysg Bellach	22
	Casgliadau	22
6	Maes Blaenoriaeth 4: Gwasanaethau Llesiant Myfyrwyr	24
	Barn myfyrwyr Addysg Uwch	25
	Barn myfyrwyr Addysg Bellach	26
	Casgliadau	26
7	Materion Ehangach	28
	Deunyddiau gweledol a digidol	28
	Barn myfyrwyr Addysg Uwch	30
	Barn myfyrwyr Addysg Bellach	31
	Casgliadau	31
	Bodlonrwydd myfyrwyr â defnydd y sefydliad o'r Gymraeg	32
	Barn myfyrwyr Addysg Uwch	33
	Barn myfyrwyr Addysg Bellach	35
	Profiadau ac argraffiadau am gyfrwng iaith y ddarpariaeth addysgol	35
	Casgliadau	36
8	Camau nesaf	38
	Atodiad	40

Rhagair y Comisiynydd

Mae profiadau plant a phobl ifanc wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn thema arbennig yn fy Nghynllun Strategol ar gyfer 2025–2030, gan adlewyrchu'r ffaith bod y blynyddoedd ffurfiannol hyn yn hollbwysig wrth gynnal a datblygu defnydd parhaus o'r iaith. Yn y cyddestun hwn, mae rôl colegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch yn allweddol wrth sicrhau bod myfyrwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn ymarferol fel rhan o'u bywydau academaidd a chymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth thematig i brofiadau myfyrwyr o ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg bellach ac addysg uwch. Trwy holiadur cenedlaethol a grwpiau trafod, rydym wedi ceisio deall profiad uniongyrchol myfyrwyr o'r ddarpariaeth Gymraeg, gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae dyletswyddau penodol wedi'u gosod drwy Safonau'r Gymraeg, ond hefyd ar y diwylliant ehangach sy'n dylanwadu ar ddefnydd o'r iaith o ddydd i ddydd.

Mae newidiadau diweddar i dirwedd addysg drydyddol Cymru yn cynnig cyfle pwysig i gryfhau cydweithio strategol ar draws y sector. Yn benodol, mae cyfle i waith y Comisiynydd gyd-fynd yn agos â phartneriaid megis Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn ogystal â'r sefydliadau addysg eu hunain, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd a manteisio ar gyfleoedd i wella profiadau myfyrwyr.

Edrychaf ymlaen at drafod canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn gyda'r sector addysg, ac at weithio ar y cyd i sicrhau bod camau gwella ymarferol ac amserol yn cael eu rhoi ar waith, er budd myfyrwyr a phobl ifanc Cymru.

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Crynodeb Gweithredol

Mae profiadau plant a phobl ifanc o ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu haddysg drydyddol yn allweddol i gynnal a datblygu defnydd parhaus o'r iaith. Yn y cyd-destun hwn, mae colegau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn chwarae rôl ganolog wrth sicrhau bod myfyrwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus, yn deg ac yn ymarferol fel rhan o'u bywydau academaidd a chymdeithasol.

Fel mae ein [hadroddiad 5 mlynedd](#) ar sefyllfa'r Gymraeg yn pwysleisio, un o'r prif flaenoriaethau strategol yn y maes hwn yw'r angen i ehangu darpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a ddwyieithog. Mae [ymchwil blaenorol](#) y gwnaethom gyhoeddi yn 2023 yn amlinellu nifer o'r heriau sydd angen eu goresgyn yn y cyd-destun hwn, ac mae ein hadroddiad 5 mlynedd yn pwysleisio bod cyfle gwirioneddol yn sgil dyfodiad Medr i fuddsoddi a chynllunio'n fwy strategol er mwyn ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mor allweddol yw'r gwaith o ehangu darpariaeth drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae hefyd angen sylw ar amgylchedd a diwylliant ehangach sefydliadau. Mae angen sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfleoedd priodol i ddefnyddio, gweld a chlywed y Gymraeg ym mhob agwedd o'u profiad astudio. Yn y cyd-destun hwn mae rôl y Comisiynydd a safonau'r Gymraeg yn allweddol, ac mae cyfleoedd amlwg i fod yn cydweithio â Medr, darparwyr, a partneriaid eraill er mwyn hybu ac annog defnydd y Gymraeg ar draws y sector drydyddol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth thematig gan Gomisiynydd y Gymraeg i brofiadau myfyrwyr o ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg bellach ac addysg uwch, gyda ffocws penodol ar feysydd lle mae dyletswyddau wedi'u gosod drwy Safonau'r Gymraeg. Mae'r gwaith wedi'i seilio ar holiadur cenedlaethol (1,544 o ymatebion) a 19 sesiwn grwpiau trafod gyda myfyrwyr ar draws Cymru.

Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:

- gallu myfyrwyr i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg
- dewis o lety gyda siaradwyr Cymraeg
- cynnig a dyrannu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg
- mynediad at wasanaethau llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal, edrychwyd ar ddefnydd ehangach o'r Gymraeg gan sefydliadau, gan gynnwys yr amgylchedd gweledol a digidol, a diwylliant ieithyddol y campws.

Prif ganfyddiadau

1. Cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg

Er bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ymwybodol, mewn egwyddor, o'r gallu i gyflwyno gwaith yn Gymraeg, mae'r profiad ymarferol yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai myfyrwyr

yn profi trefniadau clir a chefnogol, gyda staff Cymraeg ac adnoddau priodol ar gael. Fodd bynnag, mae eraill yn nodi rhwystrau parhaus, gan gynnwys diffyg adnoddau Cymraeg, anawsterau trefnu marcio, oedi wrth dderbyn adborth, a diffyg eglurder ynghylch trefniadau arholiadau. Mae anghysondeb ynghylch sut y gellir defnyddio cyfieithu i hwyluso'r gallu i gyflwyno gwaith yn Gymraeg hefyd yn rhwystr amlwg. Mae'r heriau hyn yn arbennig o amlwg mewn pynciau technegol neu arbenigol, ac yn y sector addysg bellach, lle mae llai o fyfyrwyr yn manteisio ar yr opsiwn i ysgrifennu yn Gymraeg.

2. Dewis o lety gyda siaradwyr Cymraeg

Mae'r canfyddiadau'n dangos anghysondeb yn y modd y caiff dewisiadau llety Cymraeg eu gweithredu'n ymarferol. Er bod rhai myfyrwyr – yn enwedig mewn addysg uwch – yn adrodd profiadau cadarnhaol o fyw gyda siaradwyr Cymraeg eraill, mae nifer sylweddol yn nodi eu bod naill ai heb gael cynnig llety Cymraeg o gwbl, neu wedi cael cynnig nad oedd wedi'i wireddu. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i fynd y tu hwnt i ganiatáu mynegiant o ddewis, ac i sicrhau bod y dewisiadau hynny'n arwain at gyfleoedd ymarferol i ddefnyddio'r Gymraeg.

3. Tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg

Ceir gwahaniaeth amlwg rhwng y sectorau. Yn y sector addysg uwch, mae'r mwyafrif o fyfyrwyr a fynegodd ddymuniad i gael tiwtor personol Cymraeg wedi cael cynnig a derbyn y gwasanaeth hwnnw, yn aml drwy drefniadau rhagweithiol neu awtomatig. Yn y sector addysg bellach, fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn llai cyson, ac mae llawer o fyfyrwyr naill ai heb gael cynnig neu heb fod yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn cefnogaeth drwy'r Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn aml yn dibynnu ar unigolion penodol yn hytrach nag ar systemau sefydliadol cadarn.

4. Gwasanaethau llesiant myfyrwyr

Mae lefel gymharol uchel o ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o'r gallu i dderbyn cefnogaeth llesiant drwy'r Gymraeg. Pan fo myfyrwyr wedi manteisio ar y gwasanaethau hynny, mae'r rhan fwyaf yn mynegi boddhad â'r profiad. Serch hynny, mae diffyg eglurder o hyd ynghylch ble, pryd a chan bwy y gellir cael cefnogaeth drwy'r Gymraeg, ac mae mynediad yn aml yn dibynnu ar allu ieithyddol y tiwtor personol neu argaeledd staff penodol.

5. Defnydd ehangach o'r Gymraeg a diwylliant y sefydliadau

Yn gyffredinol, mae'r data'n dangos bod llawer o ddeunyddiau gweledol a digidol ar gael yn Gymraeg, ond bod yr effaith ymarferol ar ddefnydd y Gymraeg yn dibynnu'n helaeth ar ymwybyddiaeth a hyrwyddo. Mae myfyrwyr yn disgrifio profiadau cadarnhaol lle mae'r Gymraeg yn bresennol ac yn cael ei hannog yn naturiol, ond hefyd yn tynnu sylw at

anghysondeb, diffyg staff Cymraeg, a sefyllfaoedd lle mae'r baich i sicrhau darpariaeth Gymraeg yn syrthio ar y myfyriwr ei hun.

Casgliadau

Mae'r adroddiad yn dangos darlun cymysg. Ceir enghreifftiau clir o arferion da ar draws y sector, ond hefyd anghysondeb parhaus rhwng sefydliadau, adrannau a champysau o ran profiad myfyrrwyr o'r Gymraeg. Mae hyn yn amlygu'r angen am drefniadau mwy systematig, cyfathrebu clir a rhagweithiol, a ffocws penodol ar brofiad gwirioneddol y myfyrrwyr.

Mae hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn rhan allweddol o weithrediad y safonau, a disgwylir bod sefydliadau yn cymryd camau pendant i godi ymwybyddiaeth y myfyrrwyr o'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, mae'r Comisiynydd wedi nodi cyfres o gamau gwella ar gyfer y sector (wele isod), wedi'u dylunio i gryfhau cysondeb y ddarpariaeth, gwella eglurder trefniadau, a chynyddu'r defnydd ymarferol o'r Gymraeg ym mywyddau academaidd a chymdeithasol myfyrrwyr.

Byddwn yn disgwyl i bob sefydliad ddangos sut y mae'n bwriadu ymateb i'r camau gwella a nodir isod, gan rannu tystiolaeth briodol sy'n dangos sut mae'r camau hynny yn arwain at welliant mesuradwy ym mhrofiad y myfyrrwyr.

Cam Gwella 1: Safoni trefniadau asesu yn Gymraeg

Dylai sefydliadau adolygu a chryfhau eu trefniadau ar gyfer hwyluso a hyrwyddo cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, er mwyn sicrhau profiad clir, cyson a theg i fyfyrrwyr.

Dylai hyn gynnwys, lle bo'n berthnasol:

- sicrhau bod adnoddau ac arweiniad Cymraeg digonol ar gael i fyfyrrwyr
- cryfhau cysondeb trefniadau rhwng adrannau, pynciau a champysau
- sicrhau bod trefniadau cyfieithu a marcio yn gadarn, clir ac amserol, a
- darparu canllawiau clir i fyfyrrwyr ynghylch pryd a sut y gellir cyflwyno gwaith yn Gymraeg.

Cam Gwella 2: Cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol, nid dim ond fel opsiwn

Dylai sefydliadau gymryd camau i wella'r modd y caiff gwasanaethau Cymraeg eu hyrwyddo, gan sicrhau bod y Gymraeg yn ddewis amlwg a naturiol ym mhob system, gwasanaeth a phwynt cyswllt.

Cam Gwella 3: Cau'r bylchau sgiliau Cymraeg yn y gweithlu

Dylai sefydliadau gymryd camau bwriadol i adnabod a mynd i'r afael â bylchau o ran gallu Cymraeg staff academaidd, gweinyddol a llesiant, er mwyn cynyddu capasiti cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i fyfyrrwyr.

Cam Gwella 4: Cryfhau'r profiad Cymraeg sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn

Dylai sefydliadau gymryd camau i wella mynediad at lety, tiwtor personol neu gefnogaeth amgen, a gwasanaethau llesiant drwy'r Gymraeg, fel bod y Gymraeg yn rhan naturiol o brofiad academaidd a phersonol myfyrwyr.

Dylai hyn gynnwys:

- systemau cofrestru neu fynegi dewis iaith sy'n hawdd ac yn hygyrch i'r myfyriwr
- trefniadau rhagweithiol, sefydliadol a chynaliadwy, yn hytrach na dibyniaeth ar unigolion
- cyfathrebu clir i fyfyrwyr ynghylch pryd, ble a chan bwy y gellir cael mynediad at y ddarpariaeth Gymraeg, a
- adnabod a mynd i'r afael â bylchau o ran capasiti staff Cymraeg.

Cam Gwella 5: Sicrhau cysondeb drwy hunanasesu a monitro cadarn

Dylai sefydliadau ddefnyddio trefniadau hunanasesu a monitro mewnol i adnabod anghysondebau ym mhrofiad myfyrwyr o'r ddarpariaeth Gymraeg, a gweithredu camau gwella clir ar draws yr holl sefydliad.

1 Cefndir a methodoleg

Cefndir

- 1.1 Rhwng Hydref a Rhagfyr 2025 cynhaliwyd gwaith ymchwil gan Gomisiynydd y Gymraeg i asesu perfformiad sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch (sy'n ddarostyngedig i [Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 6](#)) mewn perthynas â safonau penodol yn eu hysbysiadau cydymffurfio. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau addysgol.
- 1.2 Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ymagwedd y Comisiynydd o gyd-reoleiddio ac arwain gwelliant. Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd dwy sesiwn o *Rwydwaith y Sector Addysg*, lle cyfathrebwyd yn glir â'r sector ein bwriad i ganolbwyntio ar heriau a datrysiadau sy'n benodol i addysg bellach ac addysg uwch. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd pwysigrwydd edrych ar brofiad uniongyrchol myfyrwyr fel defnyddwyr gwasanaethau.
- 1.3 Yn y trafodaethau cynnar hyn, codwyd Safon 90, sy'n ymwneud â'r gallu i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, fel maes penodol lle roedd nifer o heriau ymarferol. Daeth yn amlwg fod angen tystiolaeth cadarnach am brofiad myfyrwyr cyn mynd ati i gynnis arweiniad a gosod disgwyliadau clir ar gyfer gwella.
- 1.4 Nod yr astudiaeth thematig hon, felly, oedd meithrin dealltwriaeth ddyfnach o brofiad myfyrwyr wrth ymwneud â sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Yn benodol, roeddem eisiau deall sut mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei phrofi gan fyfyrwyr, a pha ffactorau sy'n hwyluso neu'n rhwystro myfyrwyr rhag defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd academaidd a chymdeithasol.
- 1.5 Canolbwyntiodd yr ymchwil ar bedwar maes penodol lle mae gofynion statudol wedi'u gosod drwy'r safonau perthnasol:
 - y gallu i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg
 - cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg
 - y dewis o lety gyda siaradwyr Cymraeg eraill
 - derbyn cefnogaeth llesiant yn Gymraeg.
- 1.6 Yn ogystal, edrychwyd ar sut mae sefydliadau addysg yn hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ehangach, gan gynnwys y modd y caiff cyfleoedd eu cynnig yn rhagweithiol i greu amgylchedd sy'n annog defnydd naturiol o'r Gymraeg.

Methodoleg

- 1.7 Casglwyd y data drwy gyfuniad o holiadur ar-lein a grwpiau ffocws, er mwyn sicrhau cyfuniad o dystiolaeth meintiol ac ansoddol. Roedd yr ymagwedd aml-ddull hon yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth eang gan nifer sylweddol o fyfyrwyr, tra hefyd yn cynnig mewnwelediad dyfnach i'w profiadau a'u safbwyntiau.


- 1.8 Anfonwyd yr holiadur at bob sefydliad addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru – cyfanswm o 21 sefydliad (gweler Atodiad 1). Ym mis Hydref 2025, cysylltwyd â'r sefydliadau i egluro pwrpas y gwaith, amlinellu'r fethodoleg, a gofyn am eu cefnogaeth wrth hwyluso'r broses gyda'u myfyrwyr. Hoffem ddiolch i'r sefydliadau am eu parodrwydd i gydweithio.
- 1.9 Roedd yr holiadur ar gael i'w gwblhau'n wirfoddol gan unrhyw fyfyrwr, gyda'r opsiwn i ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dyluniwyd yr holiadur i fod yn gryno, gan gyfuno cwestiynau strwythuredig ar gyfer dadansoddiad meintiol â nifer cyfyngedig o gwestiynau agored i alluogi myfyrwyr i egluro neu ehangu ar eu profiadau.
- 1.10 Hyrwyddwyd yr holiadur gan y Comisiynydd ac, yn bennaf, drwy sianeli'r sefydliadau eu hunain, gan gynnwys newyddlenni a sianeli undebau myfyrwyr.
- 1.11 O ystyried natur wahanol rhai darparwyr addysg, gwnaed addasiadau i'r fethodoleg lle bo hynny'n briodol. Yn benodol, mae model dysgu o bell y Brifysgol Agored yn golygu nad yw nifer o'r cwestiynau safonol (megis arwyddion, llety neu beiriannau hunanwasanaeth) yn berthnasol. O ganlyniad, defnyddiwyd holiadur ar wahân ar gyfer myfyrwyr y Brifysgol Agored.
- 1.12 Gan fod strwythur yr holiadur a chyd-destun profiadau'r myfyrwyr yn wahanol, nid yw canlyniadau'r Brifysgol Agored wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad cyffredinol, ond bydd adborth penodol yn cael ei rannu gyda'r sefydliad hwnnw ar wahân.
- 1.13 Cafwyd mwy o ymatebion o'r sector addysg bellach na'r sector addysg uwch. Serch hynny, roedd yn amlwg bod cyfran uwch o fyfyrwyr yn y sector addysg uwch wedi darparu sylwadau ansoddol manylach wrth ymateb, a gyfrannodd at ddyfnhau'r dadansoddiad o rai materion.
- 1.14 Roedd cwblhau'r holiadur yn gwbl wirfoddol, ac roedd y Comisiynydd yn ddibynnol i raddau helaeth ar y sefydliadau i'w hyrwyddo. Er bod arweiniad wedi'i roi ynghylch y gynulleidfa darged, nid oedd gan y Comisiynydd reolaeth dros bwy ddewisodd ymateb.
- 1.15 Nid oedd yr holiadur yn casglu data penodol am allu ieithyddol y myfyrwyr. O ganlyniad, mae'n amlwg fod rhai ymatebion wedi dod gan fyfyrwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg, ac nad oedd ganddynt brofiad uniongyrchol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.
- 1.16 Er mwyn cyflwyno darlun cynhwysfawr, cynhwyswyd pob ymateb yn y dadansoddiad ystadegol. Cydnabyddir bod hyn yn debygol o ddylanwadu ar rai canlyniadau, yn enwedig lle nodwyd ymatebion "Ddim yn berthnasol".
- 1.17 Ni chasglwyd enwau nac unrhyw wybodaeth bersonol, er mwyn diogelu preifatrwydd cyfranwyr.
- 1.18 Yn ogystal â'r holiadur, cynhaliwyd 19 sesiwn grwpiau ffocws gyda grwpiau o 6–12 myfyrwr ar draws gwahanol sefydliadau. Roedd y cyfranwyr naill ai'n siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr â gallu digonol i gyfrannu drwy'r Gymraeg. Roedd y sefydliadau'n gyfrifol am recriwtio myfyrwyr, ac mewn rhai achosion darparwyd talebau fel diolch am gymryd rhan.

- 1.19 Defnyddiwyd yr un themâu â'r holiadur i lywio'r trafodaethau yn y grwpiau ffocws. Fodd bynnag, ni chasglwyd data meintiol, gan mai prif ddiben y sesiynau hyn oedd dyfnhau a chyd-destunoli canfyddiadau'r holiadur. Gan fod rhai grwpiau'n cynnwys cyfranwyr â gallu Cymraeg cyfyngedig, mae'n anorod bod hyn wedi llywio rhywfaint ar y data a gasglwyd.
- 1.20 Codwyd hefyd faterion ehangach nad oeddent o reidrwydd o fewn cwmpas uniongyrchol y safonau perthnasol. Er eu bod y tu hwnt i ffocws craidd yr astudiaeth, ystyrir bod rhannu'r profiadau hyn yn werthfawr, gan eu bod yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o brofiad myfyrwyr o'r Gymraeg.
- 1.21 Felly, er bod prif bwyslais yr adroddiad ar y pedwar maes blaenoriaeth, cynhwysir hefyd darlun ehangach o'r materion a gododd, er budd y sefydliadau wrth fyfyrion ar eu darpariaeth Gymraeg yn ei chyfanrwydd.

2 Canfyddiadau'r Ymchwil


- 2.1 Derbyniwyd cyfanswm o 1,544 o ymatebion i'r holiadur ar-lein. Daeth y mwyafrif helaeth o'r ymatebion, sef 1,218 (79%), gan fyfyrwyr yn y sector addysg bellach, gyda'r 326 ymatebwr arall (21%) yn fyfyrwyr addysg uwch.
- 2.2 Yn y sector addysg bellach, cafwyd nifer uwch o ymatebion gan fyfyrwyr mewn rhai colegau penodol, gan gynnwys Coleg Sir Gar/Coleg Ceredigion a Choleg Penybont. Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu lefel yr ymdrechion a wnaed gan y sefydliadau hynny i hyrwyddo'r holiadur ymhlith eu myfyrwyr. Ni dderbyniwyd ymatebion gan Goleg Cambria, a chafwyd nifer fechan iawn o ymatebion gan Goleg Catholig Dewi Sant a Choleg Merthyr Tudful.
- 2.3 O ran y sector addysg uwch, cafwyd y nifer uchaf o ymatebion gan fyfyrwyr Prifysgol Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Roedd gweddill yr ymatebion wedi'u dosbarthu'n weddol gyfartal rhwng y sefydliadau addysg uwch eraill.
- 2.4 Nid oedd yr holiadur wedi'i gyfyngu i unrhyw grŵp oedran penodol, gyda'r unig ofyniad eu bod yn fyfyrwyr cofrestredig mewn coleg neu brifysgol ar adeg yr arolwg. Serch hynny, gwelwyd bod cyfran uwch o'r ymatebion wedi dod gan fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf neu ail flwyddyn.
- 2.5 Fel y dangosir yn y siart isod, daeth y mwyafrif o'r ymatebion o fyfyrwyr yn y blynyddoedd cynnar o'u hastudiaethau, yn enwedig y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn, yn y sector addysg bellach ac addysg uwch fel ei gilydd. Roedd nifer gymharol is o ymatebion gan fyfyrwyr yn y blynyddoedd uwch, gyda chanran fach o ymatebwyr yn nodi'r opsiwn 'Arall'.

Siart: Nifer yr ymatebion yn ôl blwyddyn astudio



- 2.6 O ran iaith astudio yn y sector addysg bellach, dim ond 28 o'r 1,218 o ymatebwyr (2%) a nododd eu bod yn astudio eu cwrs cyfan yn Gymraeg. Roedd 198 (16%) yn astudio rhan o'u cwrs yn Gymraeg, tra nododd 305 (25%) nad oeddent yn astudio yn Gymraeg gan nad oedd dewis i wneud hynny ar gael. Nododd y mwyafrif, sef 687 o'r ymatebwyr (56%), nad oeddent yn astudio drwy'r Gymraeg gan nad oeddent yn dymuno gwneud hynny.
- 2.7 Yn y sector addysg uwch, nododd 57 o'r 326 o ymatebwyr (17%) eu bod yn astudio eu cwrs cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg, a 87 (27%) eu bod yn astudio rhan o'u cwrs yn Gymraeg. Nododd 87 arall (27%) nad oedd dewis i astudio yn Gymraeg ar gael iddynt, tra nododd 95 (29%) nad oeddent yn dymuno astudio drwy'r Gymraeg.

Siart: Canrannau ymatebion yn ôl iaith astudio




- 2.8 Nododd rhai myfyrwyr eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ysgrifennu yn Saesneg, ac felly'n ffafrio defnyddio'r iaith hon mewn cyd-destunau fel holiaduron neu arolygon.
- 2.9 Fodd bynnag, daeth i'r amlwg fod ffactorau technegol hefyd wedi dylanwadu ar ymatebion o ran iaith. Defnyddiwyd Microsoft Forms i gyflwyno'r holiadur, ac roedd yr iaith ddiodyn yn dibynnu ar osodiadau dyfais y myfyriwr. Yn ystod y grwpiau ffocws, nodwyd nad oedd llawer o fyfyrwyr yn ymwybodol sut i newid iaith eu dyfais na'r meddalwedd Microsoft ei hun. Yn benodol yn y sector addysg bellach, nodwyd bod nifer o fyfyrwyr yn fwy cyfarwydd â defnyddio platfformau eraill megis Google ar gyfer eu gwaith academaidd.

Er bod nodyn eglurhaol dwyieithog ar frig yr holiadur yn tynnu sylw at y posibilrwydd o newid yr iaith, mae'n debygol bod nifer o ymatebwyr wedi mynd yn syth ymlaen i gwblhau'r cwestiynau heb sylwi ar y neges honno. O ganlyniad, cwblhaodd 75 o fyfyrwyr addysg uwch yr holiadur yn Gymraeg (23% o'r ymatebion yn y sector), o gymharu â dim ond 29 o fyfyrwyr yn y sector addysg bellach (2%), gyda'r mwyafrif llethol o'r ymatebion yn y sector hwnnw wedi'u cyflwyno yn Saesneg (98%).

3 Maes Blaenoriaeth 1: Gallu myfyrwyr i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg

3.1 Mae Safonau 90 a 90A yn gosod gofyniad clir ar sefydliadau i ganiatáu i fyfyrwyr gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, a sicrhau nad yw gwaith a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol. Mae'r siart isod yn dangos ymatebion myfyrwyr mewn addysg bellach ac addysg uwch ynghylch eu gallu, eu profiad ymarferol, a'u hymwybyddiaeth o'r hawl honno.

Siart: Canrannau myfyrwyr a nododd eu bod yn gallu cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, yn unol a gofynion Safon 90 a 90A



Barn myfyrwyr Addysg Uwch

- 3.2 Mae'r ymatebion gan fyfyrwyr addysg uwch yn dangos bod enghreifftiau clir o arferion cadarnhaol, gyda nifer yn adrodd eu bod wedi cael eu hannog a'u galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno aseiniadau neu draethodau, a bod eu hawliau ieithyddol yn cael eu cydnabod. Roedd rhai o'r sylwadau'n cynnwys:

“Mae ymgyrchoedd i wneud myfyrwyr yn ymwybodol ei bod yn hawl iddynt gyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg ym mhob pwnc”

“Rydym bob amser wedi cael ein hannog i ddefnyddio'r Gymraeg gymaint â phosibl”

“Dwi'n gallu rhoi unrhyw waith mewn yn Cymraeg a mae gen i lawer o gymorth wrth wneud hynny”

- 3.3 Serch hynny, nodwyd hefyd nifer o rwystrau ymarferol sy'n parhau i effeithio ar brofiad myfyrwyr, gan gynnwys:

- Dim digon o wybodaeth yn Gymraeg ar gyfer rhai modiwlau neu adnoddau
- Anawsterau wrth drefnu marcio drwy'r Gymraeg pan fo myfyrwyr yn dymuno gwneud hynny
- Cyrsiau lle mae'r holl adnoddau yn cael eu darparu yn Saesneg, sy'n golygu nad yw cyflwyno gwaith yn Gymraeg yn opsiwn realistig
- Achosion lle mae tiwtoriaid yn barod i gynnig marcio drwy'r Gymraeg, ond nad yw'r wybodaeth honno yn cael ei chyfathrebu'n ddigon cynnar nac yn glir i'r myfyrwyr.

- 3.4 Adleisiwyd y rhain mewn sylwadau uniongyrchol gan fyfyrwyr, megis:

“Dwi'n teimlo'n ansicr a ddylwn i gyflwyno fy aseiniadau yn Gymraeg neu Saesneg.

“Mae'r cwrs yn gyfrwng Saesneg... nid yw tiwtoriaid/marcwyr yn Gymraeg.”

- 3.5 Cefnogwyd y darlun hwn gan y sesiynau trafod, a amlygodd brofiadau amrywiol ac, mewn rhai achosion, anghyson. Er bod nifer helaeth o fyfyrwyr yn ymwybodol eu bod mewn egwyddor yn gallu cyflwyno gwaith yn Gymraeg, nodwyd nifer o rwystrau ymarferol, gan gynnwys:

- diffyg darlithwyr neu farcwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai adrannau;

- pryder ymhlith myfyrwyr ynghylch colli ystyr, cywirdeb neu gystrawen wrth ddibynnu ar gyfieithu, a nifer yn gweld cyfieithu fel risg ac yn ofni colli cynnwys neu fanylion.
 - diffyg hyder i sefyll arholiadau neu gwblhau asesiadau ymarferol yn Gymraeg, yn enwedig oherwydd terminoleg arbenigol.
 - problemau o ran adnoddau a therminoleg Gymraeg, yn enwedig mewn pynciau technegol neu arbenigol megis y gwyddorau a'r meysydd meddygol, gan effeithio ar ymarferoldeb cyflwyno gwaith yn Gymraeg.
- 3.6 Tynnodd rhai myfyrwyr sylw penodol at anawsterau mewn cyd-destun arholiadau. Mewn rhai achosion, nodwyd nad oedd papur Cymraeg ar gael ar y diwrnod, er y dylai fod wedi bod ar gael. Mewn achosion eraill, gofynnwyd i fyfyrwyr roi gwybod ymlaen llaw am eu dewis iaith, gan greu baich gweinyddol ychwanegol yn hytrach na gwneud y dewis yn un hawdd neu ddiodyn. Mae hyn yn amlygu bwlch rhwng disgwyliadau myfyrwyr a'r trefniadau sy'n bodoli'n ymarferol mewn rhai lleoliadau.
- 3.7 Nodwyd hefyd wahaniaethau mewn strwythur arholiadau, hyd yn oed pan fyddent ar gael yn ddwyieithog. Mewn rhai achosion, roedd yr arholiad Cymraeg yn mynnu atebion traethawd lle'r oedd y fersiwn Saesneg yn cynnwys cwestiynau aml-ddewis, gan godi pryderon ynghylch tegwch a thriniaeth llai ffafriol wrth arfer dewis iaith.
- 3.8 Mewn astudiaethau ôl-raddedig ac uwchraddedig, nodwyd heriau ychwanegol, yn bennaf oherwydd anawsterau wrth sicrhau paneli asesu sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg.
- 3.9 Er hynny, nid oedd pob profiad yn negyddol. Roedd myfyrwyr a oedd yn astudio'r rhan fwyaf, neu'r cyfan, o'u cwrs drwy'r Gymraeg yn adrodd bod y broses o gyflwyno gwaith yn Gymraeg yn un rhwydd pan fo trefniadau clir, staff Cymraeg a chefnogaeth briodol ar gael.
- 3.10 Er nad yw'r safonau yn cyfeirio'n uniongyrchol at gyflwyno gwaith llafar, tynnwyd sylw hefyd at arferion da lle defnyddiwyd cyfieithwyr ar y pryd yn effeithiol i hwyluso cyflwyniadau llafar drwy'r Gymraeg.

Barn myfyrwyr Addysg Bellach

- 3.11 Mae ymatebion myfyrwyr addysg bellach yn dangos darlun tebyg o ran amrywiaeth profiadau. Er bod yr opsiwn i gyflwyno gwaith yn Gymraeg ar gael mewn nifer o leoliadau, roedd awgrym fod myfyrwyr yn llai tebygol o fanteisio arno. Nodwyd diffyg rhuglder, diffyg angen canfyddedig, a diffyg ymwybyddiaeth o'r opsiwn fel prif resymau.
- 3.12 Yn y grwpiau trafod, adleisiwyd yr un neges, gyda myfyrwyr ar draws gwahanol gyrsiau a champysau yn nodi lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth a chefnogaeth. Er bod yr hawl yn bodoli, nid yw'r cyfathrebu na'r trefniadau bob amser yn gyson.
- 3.13 Er mai Saesneg yw prif iaith addysgu'r rhan fwyaf o gyrsiau, nodwyd bod adnoddau neu gyflwyniadau dwyieithog ar gael mewn nifer o achosion. Fodd bynnag, mewn lleoliadau eraill, nodwyd diffyg staff Cymraeg, oedi wrth farcio, neu ddibyniaeth ar

gyfieithu fel rhwystrau pellach. Amlygwyd hefyd fod y pontio o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i golegau Saesneg eu cyfrwng yn her sylweddol i rai myfyrwr.

- 3.14 Roedd diffyg adnoddau Cymraeg hefyd yn achosi pryder, yn enwedig o ran terminoleg dechnegol. Er bod adnoddau digidol megis *CySill* a *CysGeir* ar gael i gynorthwyo myfyrwr, nid yw pob myfyriwr yn ymwybodol ohonynt nac yn hyderus i'w defnyddio. Ymhlith y prif rwystrau a nodwyd:
- **Cefnogaeth ac anogaeth:** Nid yw llawer o fyfyrwr yn ymwybodol eu bod yn gallu cyflwyno gwaith yn Gymraeg.
 - **Iaith addysgu:** Mae gwersi fel arfer yn cael eu cynnal yn Saesneg, er bod cyflwyniadau'n aml yn ddwyieithog. O ganlyniad, mae hyn yn gwneud cyflwyno gwaith yn Gymraeg yn fwy heriol, gan fod myfyrwr yn tueddu i ddysgu'r derminoleg drwy'r Saesneg.
 - **Argaeledd staff a marcio:** Mewn rhai cyrsiau, nid oes staff sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly caiff gwaith ei gyfieithu cyn ei farcio. Adroddwyd am achosion lle mae staff yn defnyddio offer cyfieithu awtomataidd megis Google Translate, gan godi pryderon ynghylch cywirdeb. Nodwyd hefyd oedi wrth dderbyn adborth o ganlyniad i'r angen i gyfieithu gwaith cyn ei farcio.
 - **Amseru a thegwch:** Mae rhai myfyrwr yn teimlo dan anfantais o ganlyniad i'r amser ychwanegol sy'n ofynnol i dderbyn marciau ac adborth.
 - **Ansawdd ieithyddol:** Mynegwyd pryder bod prosesau cyfieithu yn gallu arwain at golli ystyr, naws ac idiomau Cymraeg.

Casgliadau

- 3.15 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod profiad myfyrwr o ran cyflwyno gwaith yn Gymraeg yn gallu amrywio'n sylweddol – o'r cam lle caiff hawliau eu cyfathrebu, hyd at y profiad ymarferol wrth geisio eu harfer.
- 3.16 Er nad yw'r materion hyn o reidrwydd yn annisgwyl, mae'n bwysig i sefydliadau fyfyrion benodol ar brofiad gwirioneddol y myfyrwr a'r trefniadau sydd ganddynt ar waith i gydymffurfio â Safonau 90 a 90A.
- 3.17 Er bod mwyafrif y myfyrwr mewn addysg bellach ac addysg uwch yn ymwybodol o'r hawl i gyflwyno gwaith yn Gymraeg, mae eu profiadau ymarferol yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau, adrannau a chysiau. Mae nifer o fyfyrwr yn mynegi diffyg hyder yn y gefnogaeth sydd ar gael iddynt, ynghyd ag aneglurder ynghylch trefniadau cyfieithu a marcio pan gaiff gwaith ei gyflwyno yn Gymraeg.
- 3.18 Ceir enghreifftiau cadarnhaol yn y ddwy sector, yn aml lle mae trefniadau clir, staff â'r gallu iaith priodol a chefnogaeth briodol ar waith. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod llawer o fyfyrwr – yn enwedig yn y sector addysg bellach – yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg, yn aml oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r trefniadau sydd ar gael neu ansicrwydd ynghylch sut y cânt eu gweithredu'n ymarferol.
- 3.19 Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cyfathrebu clir, cyson a rhagweithiol gan sefydliadau ynghylch cyflwyno gwaith yn Gymraeg, gan gynnwys egluro pryd a sut y


gellir gwneud hynny, pa gefnogaeth sydd ar gael, a beth yw'r trefniadau mewn gwahanol gyd-destunau, megis arholiadau. Dim ond drwy'r eglurder hwn y gellir sicrhau bod myfyrwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus, yn deg ac yn ymarferol ar draws pob maes astudio.

- 3.20 Mae anawsterau sy'n ymwneud â strwythur arholiadau – ac yn benodol lle defnyddir cwestiynau aml-ddewis – yn fater sydd eisoes wedi'i godi gan sefydliadau eu hunain mewn trafodaethau gyda'r Comisiynydd. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yma'n cadarnhau bod y maes hwn yn un sydd angen ei archwilio'n fwy manwl ymhellach ar y cyd.
- 3.21 Yn y cyd-destun hwn, mae disgwyl i sefydliadau adolygu eu trefniadau presennol ar gyfer hwyluso a hyrwyddo'r gallu i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny'n cael eu gweithredu mewn ffordd gyson, glir a theg i bob myfyriwr. Wrth wneud hynny, dylai sefydliadau ystyried, ymhlith pethau eraill:
- a oes digon o adnoddau Cymraeg ar gael i gynorthwyo myfyrwyr i gyflwyno gwaith yn Gymraeg
 - i ba raddau y mae trefniadau'n gyson ar draws gwahanol ysgolion, campysau a meysydd pwnc
 - a yw trefniadau cyfieithu'n gadarn ac yn ennyn hyder myfyrwyr
 - a yw prosesau marcio'n eglur, cyson ac yn sicrhau nad yw cyflwyno gwaith yn Gymraeg yn arwain at oedi, ac
 - a oes canllawiau clir ar waith sy'n nodi ym mha gyd-destunau y gellir cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg mewn cyrsiau unigol.

4 Maes Blaenoriaeth 2: Y dewis o lety

4.1 Mae Safonau 92 a 92A yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau ganiatáu i fyfyrwyr fynegi dewis am lety (neu ran o lety) sydd wedi'i neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg, a hyrwyddo'r gallu i wneud hynny. Mae'r siart isod yn crynhoi ymatebion myfyrwyr ynghylch a gafwyd cynnig o lety Cymraeg, ac a gafodd y dewis hwnnw ei wireddu yn ymarferol.

Siart: Canrannau myfyrwyr a gafodd gynnis llety gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg (Safonau 92 a 92A)



4.2 Nid oedd yr holiaduron yn darparu llawer o wybodaeth ychwanegol am y maes hwn a fyddai'n ein galluogi i ddeall yn well brofiadau uniongyrchol y myfyrwyr na sut, yn ymarferol, y gwneir y cynnig o lety gan sefydliadau. Yn y cyd-destun hwn, gall yr ymateb "*ddim yn berthnasol*" fod ychydig yn gamarweiniol, o ystyried bod nifer o fyfyrwyr addysg uwch yn byw y tu allan i neuaddau preswyl neu lety swyddogol ar ôl eu blwyddyn gyntaf, a bod myfyrwyr addysg bellach yn fwy tebygol o deithio o'u cartrefi.

Barn myfyrwyr Addysg Uwch

- 4.3 Wrth ddadansoddi'r ymatebion yn ôl blwyddyn astudio a sector, gwelir bod cyfran sylweddol o'r ymatebion o fewn addysg uwch yn dod gan fyfyrwyr yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn (gweler y tabl isod). Er bod nifer o fyfyrwyr yn y blynyddoedd hyn wedi nodi eu bod wedi cael cynnig llety Cymraeg ac wedi cael eu rhoi gyda siaradwyr Cymraeg eraill, nododd eraill eu bod wedi cael cynnig ond nad oedd y dewis hwnnw wedi'i wireddu. Mae hyn yn awgrymu anghysondeb yn y modd y caiff dewisiadau llety Cymraeg eu gweithredu'n ymarferol.
- 4.4 Wrth hepgor yr ymatebion a nodwyd fel "ddim yn berthnasol" yn y sector addysg uwch, nododd 47% eu bod wedi cael cynnig llety ac wedi cael eu rhoi gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg, 32% eu bod wedi cael cynnig ond heb gael eu rhoi gyda siaradwyr Cymraeg, a 20% nad oeddent wedi cael cynnig llety Cymraeg o gwbl.
- 4.5 Rhannodd myfyrwyr ragor o wybodaeth drwy'r sesiynau trafod. Nododd rhai nad oedd mynegi dymuniad i fyw mewn llety Cymraeg o reidrwydd yn arwain at le gwarantedig, a bod llety'n aml yn gymysg o ran iaith yn hytrach na darparu gofodau penodol lle gall myfyrwyr fyw a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Tynnwyd sylw hefyd at gyrsiau penodol, megis meddygaeth, lle caiff myfyrwyr eu dyrannu'n awtomatig i lety penodol, gan gyfyngu ar y dewis o lety Cymraeg.
- 4.6 Rhannodd rhai myfyrwyr addysg uwch brofiadau cadarnhaol o gael eu rhoi mewn llety gyda siaradwyr Cymraeg eraill. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod rhai o'r lleoliadau hyn yn cynnwys cyfran sylweddol o siaradwyr di-Gymraeg. O ganlyniad, roedd yr iaith gymdeithasol o ddydd i ddydd yn aml yn symud tuag at y Saesneg. Nodwyd bod iaith lafar staff yn y lleoliadau hyn hefyd yn dylanwadu ar ba mor hawdd yw hi i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol.

Tabl: Nifer y myfyrwyr a gafodd gynnig llety, yn ôl blwyddyn astudio (Addysg Uwch)

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Arall	Cyfanswm
Wedi cael cynnig llety ac wedi cael fy rhoi gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg	19	20	17	5	0	4	65
Wedi cael cynnig ond heb gael fy rhoi gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg	11	14	8	4	3	4	44
Dim cynnig o gwbl	13	7	3	0	0	5	28
Cyfanswm y myfyrwyr lle roedd y cwestiwn yn berthnasol	43	41	28	9	3	13	137
Nifer a nododd nad oedd y cwestiwn yn berthnasol	60	54	36	9	1	29	189

Barn myfyrwyr Addysg Bellach

- 4.7 Ceir patrwm tebyg yn y sector addysg bellach, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn dod gan fyfyrwyr yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn (gweler tabl isod). Fodd bynnag, mae'r canrannau o fyfyrwyr a nododd eu bod wedi cael cynnig llety Cymraeg ac wedi cael eu rhoi gyda siaradwyr Cymraeg yn gymharol isel.
- 4.8 Unwaith eto, roedd nifer fawr o fyfyrwyr addysg bellach yn nodi nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt. Wrth hepgor y rhain, nododd 27% eu bod wedi cael cynnig llety ac wedi cael eu rhoi gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg, 26% eu bod wedi cael cynnig ond heb gael eu rhoi gyda siaradwyr Cymraeg, a'r ganran fwyaf, 48%, nad oeddent wedi cael cynnig llety Cymraeg o gwbl.

Tabl: Nifer y myfyrwyr a gafodd gynnig llety, yn ôl blwyddyn astudio (Addysg Bellach)

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Arall	Cyfanswm
Wedi cael cynnig llety ac wedi cael fy rhoi gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg	61	42	18	1	1	1	124
Wedi cael cynnig ond heb gael fy rhoi gyda myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg	68	38	9	1	0	2	118
Dim cynnig o gwbl	141	55	15	2	0	6	219
Cyfanswm y myfyrwyr lle roedd y cwestiwn yn berthnasol	270	135	42	4	1	9	461
Nifer a nododd nad oedd y cwestiwn yn berthnasol	383	269	59	13	4	29	757


Casgliadau

- 4.9 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod lle i wella o ran sicrhau bod y galw am lety Cymraeg yn cael ei ddiwallu lle bo hynny'n bosibl, a bod yr opsiynau sydd ar gael yn cael eu cyfathrebu'n glir ac yn gyson i fyfyrwyr.
- 4.10 Er mai gofyniad penodol y safonau yw caniatáu i fyfyrwyr fynegi dewis am lety i siaradwyr Cymraeg, mae'r canfyddiadau'n dangos pwysigrwydd edrych y tu hwnt i'r mynegiant hwnnw, gan ystyried sut y gall sefydliadau sicrhau bod y dewisiadau hynny'n arwain at gyfleoedd ymarferol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 4.11 Mae cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan naturiol o'u bywydau addysg a chymdeithasol yn allweddol i gryfhau'r profiad Cymraeg. Yn y cyd-destun hwn, byddai'n fuddiol i sefydliadau ystyried pa gamau ymarferol y gallent eu cymryd i ddiogelu, datblygu a chryfhau'r gofodau Cymraeg sydd eisoes yn bodoli.

5 Maes Blaenoriaeth 3: Cynnig a dyrannu Tiwtor Personol

5.1 Mae Safon 93 yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau gynnig tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg i fyfyrwyr sydd wedi mynegi dymuniad i dderbyn cefnogaeth o'r fath, p'un a yw'r gefnogaeth yn academaidd neu'n ymwneud â lles neu faterion personol. Mae'r siart isod yn dangos ymatebion myfyrwyr ynghylch a gafwyd cynnig o diwtor personol Cymraeg, ac i ba raddau y cafodd y cynnig hwnnw ei wireddu yn ymarferol.

Siart: Canrannau myfyrwyr a nododd eu bod wedi cael cynnig tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg (Safon 93)



Barn myfyrwyr Addysg Uwch

5.2 Mae ymatebion myfyrwyr addysg uwch i'r holiadur yn dangos bod dyraniad tiwtor personol yn digwydd, i raddau helaeth, fel rhan safonol o drefniadau sefydliadol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg, neu mewn ysgolion ac adrannau lle'r oedd cyfran uchel o staff yn siarad Cymraeg. Adleisiwyd hyn mewn sylwadau megis:

“Cafodd pawb diwtor Cymraeg yn awtomatig”

“Ces i un heb orfod gofyn”

- 5.3 Nodwyd nifer sylweddol o brofiadau cadarnhaol, gan amlygu gwerth y ddarpariaeth pan fo tiwtor personol Cymraeg ar gael. Rhannodd myfyrwyr enghreifftiau o gefnogaeth ymarferol, academaidd a llesiant:

“Mae fy nhiwtor personol (sy'n siarad Cymraeg) wedi sicrhau lleoliad dwyieithog i mi.”

“Cefnogaeth academaidd Cymraeg yn arbennig.”

- 5.4 Gofynnwyd i fyfyrwyr sut yr oedd y sefydliadau'n darparu'r cyfle iddynt fynegi dymuniad i gael tiwtor personol Cymraeg. Nododd llawer fod hyn yn rhan o'r broses gofrestru, yn aml drwy flwch ticio i nodi eu dewis iaith, neu drwy ddynodi eu hunain fel siaradwyr Cymraeg.
- 5.5 Cadarnhawyd hyn yn y sesiynau trafod, gyda myfyrwyr yn nodi bod y cynnig o diwtor personol Cymraeg wedi'i wneud yn awtomatig ac yn rhagweithiol mewn sawl achos, gan awgrymu bod systemau ar waith i gasglu a defnyddio gwybodaeth am ddewis iaith.
- 5.6 Rhannwyd arferion da lle'r oedd prifysgolion yn dyrannu tiwtor personol Cymraeg yn ddiodyn i fyfyrwyr a oedd wedi dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda'r opsiwn i optio allan os na fyddai'r trefniant hwnnw'n addas iddynt. Nodwyd gan fyfyrwyr fod hyn yn broses effeithiol ac yn hyblyg.
- 5.7 Amlygwyd gwerth y ddarpariaeth drwy brofiadau cadarnhaol pellach, gyda myfyrwyr yn nodi:
- bod cefnogaeth tiwtoriaid Cymraeg yn arbennig o ddefnyddiol
 - gwerth y cyfle i gael cefnogaeth mewn grwpiau llai drwy'r Gymraeg
 - cyfraniad cadarnhaol tiwtor personol Cymraeg at les a pherthnasoedd cefnogol
 - cael goruchwylwr Cymraeg ar gyfer traethodau hir pan fo cais yn cael ei wneud
 - cael eu symud i grwpiau Cymraeg pan sylweddolodd staff eu bod yn siarad Cymraeg.
- 5.8 Serch hynny, fel gyda'r dewis o lety, nodwyd hefyd nad oedd mynegi dymuniad am diwtor personol Cymraeg bob amser yn arwain at gael y gwasanaeth hwnnw. Mewn rhai achosion, nodwyd diffyg dilyniant i'r cais.
- 5.9 Ymhlith y rhwystrau a nodwyd roedd diffyg staff Cymraeg mewn adrannau penodol, neu'r angen i fyfyrwyr wneud cais penodol yn hytrach na derbyn cynnig rhagweithiol.

5.10 Mewn rhai achosion, roedd hyn yn deillio o wahaniaethau rhwng adrannau neu ysgolion, yn hytrach nag o drefniadau systematig ar lefel y sefydliad. Mewn ambell achos, nodwyd hefyd fod diffyg aliniad rhwng dynodiad rôl a gallu iaith yn ymarferol, gan olygu bod cefnogaeth yn cael ei darparu yn Saesneg yn hytrach na drwy'r Gymraeg.

Barn myfyrwyr Addysg Bellach

- 5.11 Mae'n glir o'r ymatebion i'r holiadur ac hefyd o'r adborth yn y grwpiau trafod bod y darlun yn y sector addysg bellach yn dra gwahanol, ac nad yw'r cynnig o wasanaeth tiwtor Cymraeg yn digwydd yn yr un modd. Mae hyn yn rhannol oherwydd, fel y nododd sawl ymatebydd, nad yw tiwtoriaid personol yn cael eu darparu o gwbl yn y sector yma, a bod cefnogaeth yn cael ei gynnis mewn dulliau gwahanol.
- 5.12 Mae'n ymddangos nad ydynt bob amser yn ymwybodol o'u hawl i gael tiwtor personol Cymraeg, gan godi cwestiynau ynghylch sut mae sefydliadau'n tynnu sylw at y cynnig hwn. Gwelwyd modelau cymysg o ran trefniadau cefnogaeth, gyda rhai lleoliadau'n gweithredu system glir o *optio allan* ar gyfer tiwtor Cymraeg i siaradwyr Cymraeg, tra mewn lleoliadau eraill roedd tiwtoriaid academaidd neu Hyfforddwyr Llwyddiant (Success Coaches) yn ymgymryd â'r rôl heb feddu ar y gallu iaith priodol. Rhannwyd sylwadau megis:

“does neb ar gael sy'n siarad Cymraeg”

“mae'r coleg yn dal i “geisio cael rhywun”

- 5.13 Serch hynny, pan oedd tiwtoriaid neu staff Cymraeg ar gael, adroddwyd bod profiadau'r myfyrwyr yn gadarnhaol iawn.
- 5.14 Yn ystod y sesiynau trafod, daeth i'r amlwg fod profiadau myfyrwyr addysg bellach yn amrywio'n sylweddol rhwng cyrsiau, campysau a cholegau. Nodwyd bod y ddarpariaeth yn aml yn dibynnu ar unigolion penodol yn hytrach na system glir, gan godi pryderon ynghylch cynaliadwyedd sgiliau Cymraeg a'r gallu i drafod materion personol yn eu mamiaith.

Casgliadau

- 5.15 Mae data'r holiadur yn dangos bod 69% o fyfyrwyr addysg uwch wedi cael cynnig tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg ac wedi derbyn y cynnig hwnnw. Y ganran gyfatebol ymhlith myfyrwyr addysg bellach oedd 31%.
- 5.16 Nododd 29% o fyfyrwyr addysg uwch nad oeddent wedi cael cynnig tiwtor personol Cymraeg, o gymharu â 62% o fyfyrwyr addysg bellach.
- 5.17 Mae'r dystiolaeth yn dangos amrywiad sylweddol mewn profiad, nid yn unig rhwng sefydliadau, ond hefyd o fewn yr un sefydliad ar draws campysau a chyrsiau. Mae


diffyg cysondeb a gwelededd o ran trefniadau ac argaeledd staff Cymraeg yn parhau i effeithio ar brofiad myfyrwyr.

- 5.18 Er bod enghreifftiau o arferion da – yn enwedig yn y sector addysg uwch – mae'n glir bod lle i wella, gan ganolbwyntio ar adnabod bylchau penodol yn y ddarpariaeth yn hytrach na gwneud newidiadau strwythurol mawr.
- 5.19 Gan gydnabod nad yw tiwtoriaid yn cael eu dyrannu yn yr un modd mewn addysg bellach, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen rhoi mwy o bwyslais ar godi statws y Gymraeg o fewn trefniadau cefnogi myfyrwyr, a sicrhau bod cyfleoedd rhagweithiol i dderbyn cefnogaeth drwy'r Gymraeg – boed trwy diwtor personol neu fodolau cymorth amgen – ar gael ac yn weladwy.

6 Maes Blaenoriaeth 4: Gwasanaethau Llesiant Myfyrwyr

6.1 Mae Safonau 28, 29, 29A a 29B yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at wasanaethau llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r adran hon yn archwilio i ba raddau y mae myfyrwyr yn ymwybodol o'r opsiwn hwnnw, a'u profiadau o ddefnyddio gwasanaethau llesiant Cymraeg pan fo'r angen yn codi.

Siart: Canrannau myfyrwyr a nododd eu bod yn ymwybodol eu bod yn gallu cael cefnogaeth llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg (Safonau 28, 29, 29A a 29B)




6.2 Mae'r data'n dangos bod lefel gymharol uchel o ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr o'r gallu i dderbyn cefnogaeth llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 74% o'r ymatebwyr ar draws y ddau sector yn nodi eu bod yn ymwybodol o'r opsiwn hwn. Gellir ystyried hyn yn galonogol, gan fod myfyrwyr yn aml yn ymdrin â materion personol a sensitif yn y cyd-destun hwn.

6.3 Fodd bynnag, o blith y 397 o fyfyrwyr (26%) a nododd nad oeddent yn ymwybodol o'r opsiwn o gael cefnogaeth llesiant yn Gymraeg, 63 oedd yn astudio eu cwrs, neu ran o'u cwrs, drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd 151 o'r un grŵp o 397 nad oeddent yn astudio drwy'r Gymraeg am nad oedd opsiwn i wneud hynny ar gael iddynt. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r ffaith bod myfyriwr yn cael darpariaeth academiaidd Gymraeg yn arwain o reidrwydd at ymwybyddiaeth bod ganddynt opsiwn i dderbyn gwasanaeth llesiant Cymraeg.

6.4 Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r myfyrwyr a nododd eu bod yn ymwybodol o'r gallu i gael cefnogaeth llesiant yn Gymraeg, sef a oeddent yn hapus gyda'r gwasanaeth

pan oeddent wedi dewis ei ddefnyddio. Defnyddiwyd graddfa seren (1 = ddim yn hapus, 5 = hapus iawn).

Siart: Lefel bodlonrwyddd y myfyrwyr a dderbyniodd wasanaethau llesiant drwy'r Gymraeg



6.5 Mae'r canlyniadau'n dangos bod mwyafrif y myfyrwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn weddol fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd, gyda'r rhan fwyaf yn rhoi tair seren neu fwy. Mae hyn yn awgrymu bod ansawdd y gefnogaeth, pan fo ar gael, yn cael ei werthfawrogi'n gyffredinol.

Barn myfyrwyr Addysg Uwch

6.6 Dengys y sylwadau ychwanegol a gafwyd drwy'r holiadur fod cefnogaeth llesiant myfyrwyr mewn addysg uwch yn aml yn cael ei darparu drwy'r tiwtor personol yn y lle cyntaf. O ganlyniad, mae mynediad at gefnogaeth drwy'r Gymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar allu ieithyddol y tiwtor a ddyrannwyd.

6.7 Pan oedd myfyrwyr yn gallu trafod materion llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg, pwysleisiodd nifer eu bod yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus yn trafod materion personol. Awgrymwyd hefyd fod defnydd o'r Gymraeg, neu ddiffyg defnydd ohoni, yn gallu dylanwadu ar deimladau o berthyn neu unigedd, fel y dengys y profiadau a rennir isod:

“Yr unig beth sy'n gwneud i fi deimlo'n gartrefol yw'r technegydd sy'n siarad Cymraeg.”

- 6.8 Nododd rhai myfyrwyr fod trefniadau llesiant penodol, megis sesiynau *drop-in*, ar gael yn Saesneg yn unig, neu nad oedd yn glir a oedd darpariaeth Gymraeg gyfatebol yn bodoli. Roedd hyn naill ai’n awgrymu diffyg darpariaeth Gymraeg, neu ddiffyg eglurder yn y modd y caiff y gwasanaethau hynny eu cyfleu.
- 6.9 Yn y sesiynau trafod, daeth i’r amlwg fod myfyrwyr fel arfer yn troi at y tiwtor personol yn y lle cyntaf gyda materion llesiant, ac yn cael eu cyfeirio wedyn at wasanaethau arbenigol. O ganlyniad, lle’r oedd y tiwtor personol yn siarad Cymraeg, roedd y gefnogaeth llesiant hefyd ar gael yn Gymraeg.
- 6.10 Nid oedd gan y rhan fwyaf o’r myfyrwyr brofiad uniongyrchol o ddefnyddio gwasanaethau lles penodol eu prifysgolion. O ganlyniad, roedd rhywfaint o ansicrwydd a oedd y gwasanaethau lles penodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio. Dywedodd rhai eu bod yn cofio derbyn negeseuon e-bost yn nodi bod cymorth ar gael, tra cyfeiriodd eraill at opsiynau megis llinellau cymorth mewn sefyllfaoedd o straen. Fodd bynnag, nid oedd yn glir i’r myfyrwyr a oedd modd defnyddio’r Gymraeg wrth gysylltu â’r gwasanaethau hyn, ac awgrymwyd y gallai hynny ddibynnu ar argaeledd staff neu wirfoddolwyr sy’n medru’r iaith.

Barn myfyrwyr Addysg Bellach

- 6.11 Nid oedd tystiolaeth glir o rwystrau penodol i gael mynediad at gymorth llesiant Cymraeg yn ymatebion yr holiaduron gan fyfyrwyr addysg bellach. Fodd bynnag, mae natur niwtral llawer o’r ymatebion yn awgrymu nad yw argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn ystyriaeth ganolog i nifer o fyfyrwyr.
- 6.12 Nodwyd bod rhai gwasanaethau bugeiliol a llesiant ar gael yn Gymraeg mewn rhai colegau, yn enwedig mewn adrannau Cymraeg neu lle mae aelodau staff penodol yn gallu gweithio drwy’r Gymraeg e.e. maes iechedd myfyrwyr.
- 6.13 Ond er bod hynny o sylwadau a gafwyd yn canmol y gwasanaethau llesiant yn gyffredinol, nodwyd nad yw’r gwasanaethau hynny yn cael eu ddefnyddio drwy gyfrwng y Gymraeg gan y mwyafrif o fyfyrwyr. Mae’n deg tybio bod hyn, o leiaf yn rhannol, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth bod modd derbyn cefnogaeth llesiant yn y Gymraeg.
- 6.14 Yn y sesiynau trafod, disgrifiodd myfyrwyr brofiadau amrywiol ar draws colegau, campysau a thimau. Nodwyd diffyg cysondeb o ran argaeledd staff Cymraeg, a diffyg eglurder ynghylch pa elfennau o’r ddarpariaeth llesiant oedd ar gael drwy’r Gymraeg. Er bod mentrau megis *Cwtsh Cymraeg* a swyddogion cefnogi Cymraeg yn cael eu hystyried yn bositif, nodwyd nad ydynt bob amser yn weladwy nac ar gael yn gyson.

Casgliadau

- 6.15 Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod profiadau myfyrwyr o wasanaethau llesiant drwy’r Gymraeg, lle mae mynediad yn bodoli, yn gallu bod yn gadarnhaol, yn enwedig yn y sector addysg uwch. Fodd bynnag, mae anghysonderau o hyd, a diffyg

ymwybyddiaeth ynghylch ble a chan bwy y gellir cael cefnogaeth drwy'r Gymraeg yn parhau i fod yn nodweddd amlwg.


- 6.16 Er bod y data ansoddol yn gyfyngedig yn y maes hwn, mae'n glir bod lle i wella gwelededd a hygyrchedd gwasanaethau llesiant Cymraeg. Nid yw deunyddiau dwyieithog ar eu pen eu hunain bob amser yn ddigonol i sicrhau bod myfyrwyr yn deall sut i gael mynediad at gefnogaeth drwy'r Gymraeg.
- 6.17 Yn y cyd-destun hwn, mae angen sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth glir ac ymarferol ynghylch:
- pa swyddogion neu wasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth drwy'r Gymraeg
 - a oes modd defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â llinellau cymorth neu wasanaethau llesiant ffurfiol, a
 - sut mae'r trefniadau hyn yn cysylltu â rôl y tiwtor personol.

7 Materion Ehangach


Deunyddiau gweledol a digidol

- 7.1 Yn ogystal â gofyn i fyfyrwyr am eu profiadau uniongyrchol o wasanaethau, gofynnwyd hefyd gwestiynau penodol yn yr holiadur am ddefnydd y sefydliadau o'r Gymraeg mewn cyd-destunau gweledol a digidol. Mae gweld a chlywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol o amgylch y campws yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar hyder myfyrwyr a'u parodrwydd i ddefnyddio'r iaith.
- 7.2 Nod y cwestiynau hyn oedd felly cael darlun o sut mae sefydliadau'n rhoi statws i'r Gymraeg, ac i ba raddau y cânt eu trefnu i greu amgylchedd dwyieithog sy'n annog ymwybyddiaeth a defnydd ymarferol o'r Gymraeg.
- 7.3 Canolbwyntiodd y cwestiynau ar arwyddion gweledol, sgriniau gwybodaeth, apiau digidol a pheiriannau hunanwasanaeth ar draws campysau ac adeiladau addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r rhain i gyd yn feysydd lle mae safonau penodol yn berthnasol. Gan nad yw'r deunyddiau hyn fel arfer yn weladwy i'r cyhoedd ehangach, mae'r gwaith hwn hefyd wedi darparu cyfle pwysig i gasglu tystiolaeth ynghylch cydymffurfiaeth ymarferol.
- 7.4 Ceir isod ddadansoddiad o ymatebion yr holiaduron i'r cwestiynau hyn:


Siart: Arwyddion Cymraeg o gwmpas y campws




Siart: Sgriniau yn y coridor / ffreutur yn dangos Cymraeg



Siart: Apiau'r Brifysgol / Coleg yn Gymraeg (archebu bwyd / archebu llyfr o'r llyfrgell)



Siart: Peiriannau hunanwasanaeth ar gael yn Gymraeg (benthyg llyfr neu ddeunyddiau o'r llyfrgell / talu am le parcio)



Barn myfyrwyr Addysg Uwch

- 7.5 Nododd mwyafrif myfyrwyr addysg uwch fod arwyddion campws ar gael yn Gymraeg, gyda 64% yn nodi bod pob un o'r arwyddion yn Gymraeg, ac 35% yn nodi bod rhai ar gael yn Gymraeg. Roedd patrwm tebyg i'w weld o ran sgriniau gwybodaeth, gyda chanran uchel o fyfyrwyr yn nodi bod y ddarpariaeth yn gwbl neu'n rhannol Gymraeg.
- 7.6 Ategwyd hyn yn y grwpiau trafod, gyda myfyrwyr yn nodi bod y rhan fwyaf o'r arwyddion ar gampysau prifysgolion yn ddwyieithog, ac mewn rhai achosion bod y Gymraeg yn cael ei gosod yn fwy blaenllaw drwy ddefnydd o ffont neu drefniant gweledol. Fodd bynnag, codwyd pryderon am ansawdd arwyddion dros dro, megis nodiadau neu arwyddion rhybudd, gyda rhai enghreifftiau o Gymraeg anghywir neu ddrislyd.
- 7.7 Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu bod sail gadarn ar waith o ran arwyddion parhaol, ond bod lle i wella o ran sicrhau bod pob arwydd – parhaol a dros dro – yn gywir ac ar gael yn Gymraeg yn gyson.
- 7.8 O ran apiau digidol, nododd 47% o fyfyrwyr addysg uwch fod holl apiau eu sefydliad ar gael ac yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, gyda 23% yn nodi bod rhai apiau ar gael yn Gymraeg. Trafodwyd ystod o apiau, gan gynnwys apiau porth myfyrwyr, ffitrwydd a pharcio. Nodwyd arferion da, megis apiau sy'n cofio dewis iaith y defnyddiwr.
- 7.9 Serch hynny, nododd rhai myfyrwyr nad oeddent yn ymwybodol bod apiau ar gael yn Gymraeg, yn aml oherwydd bod y systemau'n agor yn ddiofyn yn Saesneg. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd apiau'n cael eu defnyddio'n gyflym i gyrchu gwybodaeth, gan olygu nad oedd myfyrwyr yn tueddu i chwilio am osodiadau iaith.

- 7.10 Cafwyd yr argraff gyffredinol nad yw apiau a systemau digidol bob amser yn cael eu hyrwyddo'n glir fel rhai Cymraeg, gyda myfyrwyr yn darganfod y darpariaeth Gymraeg ar hap yn hytrach nag yn fwriadol.
- 7.11 O ran peiriannau hunanwasanaeth, nododd mwyafrif myfyrwyr eu bod ar gael yn Gymraeg yn llawn neu'n rhannol, yn enwedig mewn llyfrgelloedd. Er hynny, roedd ansicrwydd ymhlith rhai myfyrwyr ynghylch a oedd modd newid iaith y peiriannau, a hynny o bosib am nad oeddent wedi rhoi cynnig ar y dewis yn y gorffennol.
- 7.12 Nodwyd hefyd fod rhai peiriannau a ddarperir gan drydydd partïon, megis peiriannau talu am barcio, yn aml yn Saesneg yn unig. Er hynny, mae'r disgwyliad yn parhau y dylai'r sefydliad sicrhau bod darpariaeth o'r fath ar gael yn Gymraeg pan fo'r gwasanaeth yn rhan o drefniant sefydliadol.

Barn myfyrwyr Addysg Bellach

- 7.13 Nododd ychydig dros hanner y myfyrwyr addysg bellach fod pob un o'r arwyddion ar gael yn Gymraeg, gyda'r canfyddiadau'n amrywio rhwng campysau. Roedd defnydd o sgriniau gwybodaeth yn llai cyffredin mewn rhai colegau, gan olygu bod y cwestiwn yn llai perthnasol i rai myfyrwyr.
- 7.14 Mae nifer o sefydliadau addysg bellach yn defnyddio apiau i rannu amserlenni a gwybodaeth weinyddol gyda myfyrwyr. Yn yr holiadur, nododd 37% fod pob ap ar gael yn Gymraeg ac yn gweithio'n llawn drwy'r Gymraeg, gyda 8% ychwanegol yn nodi bod pob ap ar gael yn Gymraeg ond nad oeddent yn gweithio'n llawn drwy'r Gymraeg. Nododd 27% fod rhai apiau ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn awgrymu darlun cymysg, lle mae darpariaeth Gymraeg yn bodoli mewn sawl achos, ond nad yw bob amser yn gyson nac yn weithredol ar draws pob ap neu bob swyddogaeth.
- 7.15 Roedd canfyddiadau tebyg o ran peiriannau hunanwasanaeth, gyda nifer o fyfyrwyr yn credu bod modd newid iaith y peiriannau i Gymraeg, ond yn defnyddio'r Saesneg yn ddiofyn. Unwaith eto, roedd diffyg hyrwyddo neu arwyddion clir yn dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr.
- 7.16 Awgrymodd ymatebion y myfyrwyr hefyd fod colegau'n tueddu i weithredu mewn modd mwy cyffredinol ddwyieithog, ond heb yr un lefel o hyrwyddo gweledol o'r Gymraeg ag mewn prifysgolion. Roedd hyn, yn eu barn nhw, yn arwain at ddiffyg eglurder neu ymwybyddiaeth ynghylch ble a sut y gellir defnyddio'r Gymraeg.

Casgliadau


- 7.17 Mae'n gadarnhaol nodi bod y data yn dangos bod deunyddiau gweledol a digidol, ar y cyfan, ar gael yn Gymraeg, gan awgrymu bod trefniadau pendant ar waith i gydymffurfio â'r safonau perthnasol.
- 7.18 Fodd bynnag, mae'r effaith ymarferol ar ddefnydd y Gymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar ymwybyddiaeth a dewisiadau myfyrwyr. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod lle i wella o ran hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg, yn enwedig mewn cyd-destunau digidol a hunanwasanaeth.

7.19 Mae gan sefydliadau rôl allweddol i'w chwarae wrth ddylanwadu ar arferion myfyrwyr. Yn y cyd-destun hwn, gall technegau “ysgogi ymddygiad” (nudging) – megis gosod y Gymraeg fel yr iaith ddiodyn ar beiriannau hunanwasanaeth neu apiau – gyfrannu at fwy o ddefnydd greddfoll o'r Gymraeg, heb fynnu bod myfyrwyr yn gwneud penderfyniad bwriadol i newid iaith bob tro.


Bodlonrwydd myfyrwyr â defnydd y sefydliad o'r Gymraeg

7.20 Er mwyn cael darlun ehangach o sut mae sefydliadau'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymhlith myfyrwyr, gofynnwyd yn yr holiadur am lefel bodlonrwydd cyffredinol â defnydd y sefydliad o'r Gymraeg, a'r graddau y mae'r sefydliad yn annog myfyrwyr i'w defnyddio. Ceir crynodeb o'r ymatebion isod.

Siart: Pa mor hapus wyt ti gyda'r Brifysgol / Coleg a'r defnydd maent yn gwneud o'r Gymraeg?



Siart: Pa mor hapus wyt ti gyda'r Brifysgol / Coleg yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dy annog di i ddefnyddio dy Gymraeg?



Barn myfyrwyr Addysg Uwch

7.21 Mae'r ffigyrau yn dangos bod nifer o'r myfyrwyr addysg uwch yn fodlon gyda'r defnydd cyffredinol o'r Gymraeg gan y sefydliadau. Roedd profiadau cadarnhaol yn cael eu mynegi yn y grwpiau trafod a'r darlun cyffredinol yn dangos brwdfrydedd cryf gan lawer i ddefnyddio neu ddysgu Cymraeg. Roedd llawer yn canmol yr ymdrechion presennol gan y sefydliadau ac yn teimlo bod hyn yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg.

7.22 Roedd sawl ymateb yn yr holiadur hefyd yn cydnabod rôl gadarnhaol sefydliadau Cymraeg o fewn y brifysgol wrth annog defnydd o'r iaith:

“Mae sefydliadau fel Academi x yn hollbwysig yma yn x”

“Mae x yn dda wrth hyrwyddo'r Gymraeg ac wrth greu cyfleoedd cymdeithasu Cymraeg”

- 7.23 Mae'r ffigyrau'n dangos lefel gymharol uchel o foddhad ymhlith myfyrwyr addysg uwch ynghylch defnydd cyffredinol y sefydliadau o'r Gymraeg, a'r modd y caiff ei hyrwyddo. Ategwyd hyn yn y grwpiau trafod, gyda myfyrwyr yn mynegi brwdfrydedd i ddefnyddio neu ddysgu Cymraeg, a theimlo bod ymdrechion presennol yn cyfrannu at gynnydd mewn defnydd.
- 7.24 Tynnwyd sylw'n benodol at rôl sefydliadau a mentrau Cymraeg o fewn prifysgolion— megis academiâu Cymraeg, canghennau Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chyfleoedd cymdeithasol fel elfennau allweddol sy'n annog defnydd naturiol o'r iaith ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn.
- 7.25 Cafwyd canmoliaeth eang hefyd i gyrsiau Dysgu Cymraeg a gwersi ffurfiol, a nodwyd eu bod yn cynyddu hyder, sgiliau a mynediad ymarferol at y Gymraeg, yn arbennig i ddysgwyr newydd.

*“Rydw i wedi teimlo'n galonogol iawn i ddysgu Cymraeg trwy fod yma!
Rwyf wedi cofrestru ar gyfer Dysgu Cymraeg”*

*“Rydym yn cael gwersi Cymraeg bob wythnos... Mae'r tiwtoriaid yn wych
ac wedi fy helpu i ennill hyder”*

*“Yn yr wythnos gyntaf, daeth rhywun i'n dosbarth i gynnig gwersi Cymraeg
wythnosol i ni a sôn am y cyfleoedd sy'n dod gydag e”*

- 7.26 Serch hynny, mae rhai rhwystrau strwythurol yn parhau. Nododd myfyrwyr ddiffyg staff Cymraeg mewn rhai meysydd, diffyg cyfleoedd naturiol i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, ac mewn rhai achosion bod ansawdd cyfieithu neu wallau iaith yn tansellio hyder.
- 7.27 O ran cyfathrebu, nodwyd bod myfyrwyr yn cysylltu â'u sefydliad yn bennaf drwy e-bost. Roedd rhai yn tueddu i ohebu ag adrannau canolog y brifysgol yn ddwyieithog—neu'n dechrau a gorffen yn Gymraeg—er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gael ymateb priodol. Mae hyn yn awgrymu diffyg hyder ymysg rhai myfyrwyr y byddai gohebiaeth uniaith Gymraeg yn cael ei ddelio ag ef yn llawn.
- 7.28 Nodwyd hefyd achosion o ymatebion Saesneg i ohebiaeth Gymraeg, hyd yn oed lle'r oedd datganiadau safonol yn annog defnydd o'r Gymraeg. Mae'r profiadau hyn yn gallu tansellio parodrwydd myfyrwyr i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg.

7.29 Ar y llaw arall, rhannodd rhai myfyrwyr brofiadau positif iawn lle'r oedd y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei nodi'n eglur a'i pharchu'n gyson. Nodwyd bod arwyddion clir—megis datganiadau mewn llofnodion e-bost a newid iaith naturiol mewn ymatebion—yn gallu annog defnydd gweithredol o'r Gymraeg, hyd yn oed pan oedd myfyrwyr wedi cychwyn gohebiaeth yn Saesneg yn wreiddiol.

Barn myfyrwyr Addysg Bellach

7.30 Er bod llawer o fyfyrwyr addysg bellach wedi sgorio yng nghanol y raddfa bodlonrwydd, roedd y profiadau ansoddol a rennir yn dangos agweddau cadarnhaol iawn mewn rhai lleoliadau. Nodwyd cyfleoedd naturiol i ddefnyddio'r Gymraeg, tiwtoriaid oedd yn hyrwyddo'r iaith yn gyson, a chynnydd mewn hyder ieithyddol ers dechrau'r coleg.

7.31 Fodd bynnag, mynegwyd yr un rhwystrau ag a welir yn y sector addysg uwch: diffyg staff Cymraeg, diffyg cysondeb rhwng adrannau, a diffyg cyfleoedd ymarferol. Roedd profiad cadarnhaol o'r Gymraeg yn aml yn dibynnu ar unigolion penodol yn hytrach na systemau sefydlog, ac roedd rhai myfyrwyr yn galw am lai o symbolaeth a mwy o weithredu pendant.

Profiadau ac argraffiadau am gyfrwng iaith y ddarpariaeth addysgol

7.32 Er nad yw'r safonau'n cwmpasu cyfrwng yr addysg fel y cyfryw (heblaw'r gallu i gyflwyno gwaith yn Gymraeg), codwyd nifer o faterion gan fyfyrwyr a oedd yn ymwneud â'r maes hwn. Ymhlith y prif rwystrau a nodwyd gan fyfyrwyr roedd:

- diffyg adnoddau a modiwlau cyfrwng Cymraeg, gan greu anhawster o ran defnyddio'r Gymraeg yn academiaidd;
- anghysondeb rhwng yr hyn a gaiff ei hysbysebu a'r hyn a ddarperir yn ymarferol.

7.33 Yn benodol, adroddodd nifer o fyfyrwyr nad yw pob cwrs sy'n cael ei hysbysebu fel un "ar gael yn Gymraeg" yn cael ei addysgu drwy'r Gymraeg yn ymarferol, yn aml oherwydd diffyg darlithwyr sy'n gallu addysgu yn Gymraeg. Nodwyd bod rhai myfyrwyr yn gorfod mynychu darlithoedd Saesneg er gwaethaf cofrestru ar gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys myfyrwyr TAR ac ôl-raddedig (PhD).

7.34 Mynegwyd hefyd heriau penodol sy'n gysylltiedig ag astudio'n ddwyieithog. Nododd myfyrwyr fod gorfod symud yn barhaus rhwng darlithoedd yn Saesneg, seminarau yn Gymraeg, ac asesu drwy'r ddwy iaith yn gallu bod yn flinedig ac yn feichus. Teimlai rhai nad yw'r ymdrech ychwanegol hon yn cael ei chydabod nac ei gwerthfawrogi'n ddigonol gan y sefydliadau.

"Er bod yr holl fodiwlau yn cael eu hysbysebu fel opsiwn Cymraeg ar gael. Nid oes darlithwyr Cymraeg bob amser felly rydyn ni'n cael ein gorfodi i gael darlithoedd Saesneg."

“Nid oes digon o’r darlithwyr yn siarad Cymraeg a phan oeddwn i eisïau gwneud un o’m haseiniadau yn y Gymraeg doeddwn i byth yn cael ymateb...”

- 7.35 Codwyd pryderon pellach ynghylch ansawdd a chwmpas modiwlau cyfrwng Cymraeg. Awgrymodd rhai myfyrwyr fod cyfyngiadau o ran adnoddau yn gallu arwain at brofiad israddol o’i gymharu â modiwlau Saesneg, a bod darpariaeth Gymraeg yn aml yn gyfyngedig i ran fach o’r cwrs (er enghraifft, 20 credyd yn unig), neu ddim ar gael o gwbl mewn rhai pyncïau. O ganlyniad, adroddwyd bod astudio’n llawn neu’n sylweddol drwy’r Gymraeg yn amhosibl mewn nifer o ddisgyblaethau, hyd yn oed i fyfyrwyr rhugl.

“Dim ond dewis bach o fodiwlau yn Gymraeg y mae x yn ei gynnig...”

“Undeb Myfyrwyr Cymraeg y brifysgol yn wych, ond nid oes modd i mi wneud mwy na 20 credyd o’r cwrs yn y Gymraeg”

Casgliadau

- 7.36 Mae creu’r amgylchedd a’r amodau cywir i annog defnydd o’r Gymraeg yn hollbwysig, ac mae nifer o ffyrdd y gall sefydliadau lunio’r profiad hwnnw. Mae’n galonogol nodi bod bodlonrwydd cyffredinol ymhlith rhai myfyrwyr, ynghyd â sylwadau cadarnhaol sy’n dangos bod gwaith effeithiol yn digwydd mewn rhai cyd-destunau.
- 7.37 Mynegodd rhai myfyrwyr eu bod yn gwerthfawrogi unrhyw ddefnydd o’r Gymraeg gan staff nad ydynt yn rhugl, gan nodi bod ymdrechion syml – megis dweud “bore da” neu “da iawn” – yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i’r awyrgylch ieithyddol.
- 7.38 Fodd bynnag, lle bo’r ddarpariaeth yn parhau i ddibynnu ar unigolion yn hytrach nag ar drefniadau a systemau sefydliadol cadarn, ceir perygl o brofiad anghyson i fyfyrwyr. O ystyried pa mor hir y mae’r Safonau wedi bod mewn grym, byddai disgwyl i’r cynnig a’r dulliau cyfathrebu fod yn fwy cyson ac wedi’u gwreiddio erbyn hyn, a chyfrifoldeb y sefydliadau unigol yw sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei chynllunio, ei chyfleu a’i darparu’n weithredol, yn unol â’u dyletswyddau statudol.
- 7.39 Mewn perthynas â rhai sefydliadau, mynegwyd pryder nad yw’r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo’n ddigonol nac yn cael digon o bwyslais fel rhan annatod o’r profiad addysgol ehangach.
- 7.40 At ei gilydd, mae’r canfyddiadau’n amlygu anghysondeb pryderus yn y ddarpariaeth addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai achosion, ymddengys fod y chyfrifoldeb am wireddu’r ddarpariaeth yn syrthio ar y myfyriwr ei hun, yn hytrach na bod yn rhan o gynnig clir, rhagweithiol a dibynadwy gan y sefydliad.
- 7.41 Yn y cyd-destun hwn, bydd y Comisiynydd yn gweithio ar y cyd â phartneriaid strategol, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Medr, i rannu’r dystiolaeth

a'r negeseuon sy'n deillio o'r ymchwil. Bydd hyn yn cefnogi dealltwriaeth ehangach o'r materion a godwyd gan fyfyrwyr mewn perthynas â chyfrwng yr addysg a defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau asesu ac arholiadau, a chreu sail ar gyfer trafodaethau pellach ar draws y sector.

8 Camau nesaf

- 8.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfres o gamau gwella clir, wedi'u seilio ar brofiadau myfyrwyr, y bydd disgwyl i'r sefydliadau unigol eu gweithredu.
- 8.2 Yn unol â'r egwyddor o gyd-reoleiddio, bydd y Comisiynydd yn cynnal trafodaethau agored a strwythuredig gyda'r sefydliadau ynghylch y camau gwella a nodir yn yr adroddiad hwn.
- 8.3 Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd gyda'r sector, gan adeiladu ar y fforwm sectorol a sefydlwyd yn ystod 2024–25, er mwyn rhannu gwybodaeth, tynnu sylw at arferion da, a chryfhau atebolrwydd ar draws y sector. Ar yr un pryd, bydd unrhyw bryderon neu ganfyddiadau sy'n berthnasol i sefydliadau unigol yn cael eu codi'n uniongyrchol gyda'r sefydliadau hynny.
- 8.4 Byddwn yn disgwyl i bob sefydliad ddangos sut y mae'n bwriadu ymateb i'r camau gwella a nodir isod, gan rannu tystiolaeth briodol sy'n dangos sut mae'r camau hynny yn arwain at welliant mesuradwy ym mhrofiad y myfyrwyr.

Cam Gwella 1: Safoni trefniadau asesu yn Gymraeg

Dylai sefydliadau adolygu a chryfhau eu trefniadau ar gyfer hwyluso a hyrwyddo cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, er mwyn sicrhau profiad clir, cyson a theg i fyfyrwyr.

Dylai hyn gynnwys, lle bo'n berthnasol:

- sicrhau bod adnoddau ac arweiniad Cymraeg digonol ar gael i fyfyrwyr
- cryfhau cysondeb trefniadau rhwng adrannau, pynciau a champysau
- sicrhau bod trefniadau cyfieithu a marcio yn gadarn, clir ac amserol, a
- darparu canllawiau clir i fyfyrwyr ynghylch pryd a sut y gellir cyflwyno gwaith yn Gymraeg.

Cam Gwella 2: Cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol, nid dim ond fel opsiwn

Dylai sefydliadau gymryd camau i wella'r modd y caiff gwasanaethau Cymraeg eu hyrwyddo, gan sicrhau bod y Gymraeg yn ddewis amlwg a naturiol ym mhob system, gwasanaeth a phwynt cyswllt.

Cam Gwella 3: Cau'r bylchau sgiliau Cymraeg yn y gweithlu

Dylai sefydliadau gymryd camau bwriadol i adnabod a mynd i'r afael â bylchau o ran gallu Cymraeg staff academiaidd, gweinyddol a llesiant, er mwyn cynyddu capasiti cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i fyfyrwyr.

Cam Gwella 4: Cryfhau'r profiad Cymraeg sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn

Dylai sefydliadau gymryd camau i wella mynediad at lety, tiwtor personol neu gefnogaeth amgen, a gwasanaethau llesiant drwy'r Gymraeg, fel bod y Gymraeg yn rhan naturiol o brofiad academaidd a phersonol myfyrwyr.

Dylai hyn gynnwys:

- systemau cofrestru neu fynegi dewis sy'n hawdd ac yn hygyrch i'r myfyriwr
- trefniadau rhagweithiol, sefydliadol a chynaliadwy, yn hytrach na dibyniaeth ar unigolion
- cyfathrebu clir i fyfyrwyr ynghylch pryd, ble a chan bwy y gellir cael mynediad at y ddarpariaeth Gymraeg, a
- adnabod a mynd i'r afael â bylchau o ran capasiti staff Cymraeg.

Cam Gwella 5: Sicrhau cysondeb drwy hunanasesu a monitro cadarn

Dylai sefydliadau ddefnyddio trefniadau hunanasesu a monitro mewnol i adnabod anghysondebau ym mhrofiad myfyrwyr o'r ddarpariaeth Gymraeg, a gweithredu camau gwella clir ar draws yr holl sefydliad.

Atodiad: Rhestr o'r sefydliadau addysg bellach ac uwch a fu'n rhan o'r astudiaeth.

Mae'r rhai a nodwyd gyda * yn dangos y sefydliadau lle cynhaliwyd grwpiau ffocws wyneb yn wyneb hefyd.

Addysg Bellach

Coleg Caerdydd a'r Fro*
Coleg Catholig Dewi Sant
Coleg Gwent*
Coleg Gŵyr Abertawe*
Coleg Merthyr Tudful*
Coleg Penybont*
Coleg Sir Benfro*
Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion*
Coleg y Cymoedd*
Grŵp Colegau NPTC*
Grŵp Llandrillo Menai*

Addysg Uwch:

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Prifysgol Aberystwyth*
Prifysgol Abertawe*
Prifysgol Bangor*
Prifysgol Caerdydd*
Prifysgol De Cymru*
Prifysgol y Drindod Dewi Sant*
Prifysgol Metropolitan Caerdydd*
Prifysgol Wrecsam*
Y Brifysgol Agored